

**Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru**



**Welsh Network of Healthy School Schemes
National Quality Award**

**Adroddiad Gwobr Ansawdd Genedlaethol
ar yr ymweliad â
Ysgol Abercaseg**

Dyddiad: 7fed a 8fed Gorffennaf 2016

Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Yr ydym yn falch iawn i gadarnhau bod Ysgol Abercaseg yn cyfarfod â'r holl feini prawf ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r meini prawf hyn wedi eu gosod allan yn erbyn 7 testun iechyd:

1. Bwyd a ffitrwydd (maeth a gweithgareddau corfforol)
2. Iechyd a lles Meddyliol ac Emosiynol gan gynnwys lles y staff
3. Datblygu personol a chydberthynas gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd
4. Defnyddio a chamdefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, ysmegu a chyffuriau (cyfreithiol, anghyfreithiol a phresgripsiwn)
5. Amgylchedd gan gynnwys eco-fentrau a gwelliannau i'r ysgol a'r amgylchedd ehangach
6. Diogelwch gan gynnwys agweddau amrywiol fel amddiffyn plant, diogelwch yr haul, diogelwch y rhyngwrwd a chymorth cyntaf

Hylendid gan gynnwys ar draws yr ysgol a thu hwnt

Am ragor o wybodaeth ar feini prawf GAG, ymwelwch â

<http://gov.wales/topics/health/improvement/schools/?skip=1&lang=cy>

Mae'r meini prawf yn cael eu cefnogi gan nifer o egwyddorion sylfaenol sef;

- Pwysigrwydd cyfranogiad y disgyblion yng nghraidd bywyd ysgol sydd yn effeithio ar les plant a phobl ifanc e.e. dysgu ac addysgu, amgylchedd, gofal bugeiliol
- Pwysigrwydd yr ymrwymiad a'r ddealltwriaeth sydd gan holl gymuned yr ysgol
- Bod agweddau iach tuag at iechyd yn bodoli
- Cyfiawnder Ecwiti
- Y cyswllt â rhaglenni a pholisïau cenedlaethol a lleol

Mae ysgolion sydd yn llwyddo i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol yn gweithredu mentrau sydd yn ymwneud â lles i'r safon uchaf. Yn yr adroddiad hwn yr ydym yn nodi cryfderau nodedig eich ysgol wrth i chi fynd ati i hyrwyddo lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod meysydd sydd angen ystyriaeth arnoch er mwyn datblygu ymhellach.

Gobeithiwn bod yr adroddiad yn rhoi hwb i chi ac yn cynnig arweiniad defnyddiol fydd yn galluogi disgyblion a staff Ysgol Abercaseg i barhau ac i ddatblygu rhai o'r mentrau rhagorol mae'r ysgol eisoes yn ei gweithredu fel eu bod hyd yn oed yn cael eu sefydlu ymhellach ym mywyd yr ysgol.

Lynn Edwards

Crynodeb yr ymweliad

Mae Ysgol Abercaseg yn ysgol gydag iechyd, lles a diogelwch disgyblion wrth ei wraidd a hybu iechyd wedi ei ymgorffori'n gadarn a'i wreiddio'n holl agweddau o fywyd yr ysgol. Mae'r Tim Rheoli Uwch yn dangos arweinyddiaeth gref gyda chefnogaeth brwd ei staff.

Mae cyfranogiad y disgybl yn gryf iawn yn yr ysgol. Mae ffeil cyfranogiad ym mhob dosbarth a bob tymor ceir tasgau cyfranogi sydd yn y pen draw yn cyfrannu at Gynllun Datblygu'r Ysgol. Mae gan yr ysgol Sgwad Syniadau, grŵp etholedig o blant sydd yn amlygu eu hunain yn llawer o agweddau bywyd yr ysgol. Mae'r Sgwad Syniadau wedi bod yn rhan o'r broses o benodi staff newydd, yn gyfrifol am ddewis y testunau fel rhan o'r cynllun testun trafod yr wythnos i annog y teulu i siarad gyda'i gilydd. Maent wedi dewis y dulliau o hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol h.y. cwpan Pencampwyr Presenoldeb ac wedi creu fideo yn nodi sut mae golchi dwylo a'i gyflwyno mewn gwasanaeth ac i'r corff llywodraethol. Mae gan yr ysgol hefyd Bydis Buarth lle mae pob disgybl ym mlwyddyn 2 yn cael cyfle i ofalu am eu cyfoedion a grŵp o'r enw Dreigiau Caseg. Lle mae bob disgybl yn cael tro i hyrwyddo siarad Cymraeg drwy'r dydd yn yr ysgol.

Mae amgylchedd yr ysgol yn ddymunol gydag ardaloedd awyr agored deniadol, gardd arbennig a canopi haul tu allan i ddosbarthiadau plant dan 5 ac ar iard yr ysgol. Mae'r buarth wedi ei farcio ar gyfer chwaraeon, rhedeg a gemau ac yn cael ei adnewyddu'n flynyddol.

Mae'r cyntedd yn groesawgar a diogel gyda gweithdrefnau diogelu gryf. Mae'r maes parcio a mynediad yr ysgol wedi ei ddiogelu fel bod ceir a phlant yn cael mynediad ar wahân i'w gilydd. Mae arddangosfeydd deniadol o waith disgyblion a hysbysfyrddau gwybodaeth o amgylch yr ysgol. Mae murluniau pwrpasol i bynciau ysgolion iach wedi ei harddangos o amgylch yr ysgol. e.e. Murlun Cynllun Gwen yn y coridor yn annog y disgyblion i ofalu am eu dannedd a llaw mawr yn dangos rheolau dosbarth.

Defnyddir e bost a negeseuon testun i gysylltu â rhieni. Mae'r prosiectws yn gyflawn gyda gwybodaeth clir i rieni am reolau a threfn yr ysgol. Mae cydweithio a pherthynas da gyda'r rhieni a'r gymuned lleol. Derbyniodd y rhieni wybodaeth am ddiogelwch ar y we fel sesiwn fin nos ac roedd yr ymateb yn dda a'r neuadd yn llawn. Caiff y rhieni gyflwyniad dosbarth ar ddiwedd y flwyddyn a'r cyfle i siarad gyda'r athrawon am ddigwyddiadau y flwyddyn. Mae hwn yn galluogi'r athrawes yn dosbarth 2 i gyflwyno cyffwrdd amhriodol a phriodol fel rhan naturiol o addysg plant.

Mae'r ysgol yn defnyddio ymwelwyr ac asiantaethau allanol i gyfoethogi ymhellach y gwaith a gyflwynir gan y staff a mae llawer esiampl o ymweliadau addysgol.

Mae Ysgol Abercaseg yn ysgol hapus a chroesawgar gyda disgyblion cyfeillgar a hyfryd. Roedd y croeso oddi wrth disgyblion a staff yn arbennig gyda phob disgybl yn barod i rannu a siarad gyda ni.

Uchafbwyntiau'r ymweliad

Mae'r ddarpariaeth amser cinio, y bwyd a ddarperir a'r profiad bwyta ar gyfer y disgyblion yn ardderchog. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth clir i'r rhieni am gynnwys bocs bwyd iach trwy ddarparu cyflwyniad am gynnwys bocs bwyd iach gan cydlynedd Cynllun Gŵen a danfon allan pamffledi 'Bywiogi eich pecyn bwyd'. Mae'r canllawiau bocsys bwyd yn dda ac yn fanwl ac ar gael yn y llawlyfr ysgol. Mae gan y disgyblion hawl i yfed dŵr bob amser o'r dydd a mae'r rhieni yn gyfrifol am lanhau y poteli dŵr.

Mae'r ysgol yn rhan o Cynllun Gŵen ers 2009 ac mae holl dosbarthiadau yr ysgol yn darparu cyfleoedd i'r plant lanhau eu dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Aur Cynllun Gŵen. Mae'r ysgol wedi cael ei hasesu ar gyfer sgôr hylendid bwyd yr Asiantaeth Safonau Hylendid Bwyd a dyfarnwyd sgôr a 5 ar gyfer gegin yr ysgol. Mae posterï ar gael 'sut i olchi dwylo' wedi eu gosod wrth bob sinc yn yr ysgol, toiledau a toiled staff. Mae hefyd amserlen i lanhau offer yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r polisi ar gyfer defnyddio a chamdefnyddio sylweddau yn cynnwys y âdiweddaraf ar sigarennau electronig. Mae adeiladau tir yr ysgol yn ddi-fwg a dangosir arwyddion dim ysmegu a phosterï ynghylch y defnydd o e sigaret o gwmpas mynedfeydd yr ysgol. Mae'r plant yn derbyn gwersi gan PC Meirion a mae'r athrawon yn defnyddio safwe schoolbeat.org i ategu cyflwyniadau'r plismon. Mae'r nyrs ysgol yn ymweld i drafod diogelwch personol ac yn cyflwyno gwersi e.e. golchi dwylo'n lân ac effaith siwgr ar y dannedd. Mae ysgol yn le yr ystyrir bod bwydo ar y fron yn arferol.

Lleolir yr ysgol mewn stâd o dai a mae'r ysgol yn trefnu hyfforddiant Kerbcraft i sicrhau gwybodaeth y disgyblion am ddiogelwch y ffyrdd. Mae amser cylch wedi ei amserlenni gyda phob dosbarth yn ei ddilyn. Gwelsom enghraifft ardderchog o drefniant amser cylch gan athrawes blwyddyn 1.

Mae sustem wobrwyo'r ysgol yn effeithiol a mae holl staff wedi derbyn hyfforddiant ac yn gweithredu cynllun sy'n canmol ymddygiad cadarnhaol. Mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar yr adnodd Tyfu i Fyny ar y cyd gyda ysgol Penbryn a hyfforddiant Sbectrwm i staff yn dilyn disgyblion Blwyddyn 2 yn derbyn dwy wers i godi ymwybyddiaeth o stereoteipio ac adnabod emosiynau a chefnogaeth. Mae cysylltiadau clir a chryf rhwng polisi Addysg Rhyw a Pherthnasau (ARhPh) a'r polisi diogelu plant ac mae holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae'r staff yn gwisgo bathodynau adnabod sy'n cynnwys canllawiau Amddiffyn Plant. Mae trefn da ar gyfer cofnodi anafiadau o fewn yr ysgol gyda dwy cynorthwy-ydd â chymwyster Cymorth Cyntaf.

Mae'r ysgol wedi derbyn Faner Werdd Eco Ysgolion, Gwobr Aur Ysgol Werdd, Gwobr Arian Garddio Bywyd Gwyllt a thystysgrif Masnach Deg. Mae agweddau o gefnogi'r amgylchedd yn gryf trwy'r ysgol a mae ailgylchu trefnus iawn yn y dosbarthiadau i gyd. Gwneir gwaith amgylcheddol yn y gymuned e.e. dylunio posterï i lanhau baw cŵn yn cael eu harddangos yn

lleol a chodi sbwriel yn y cyffiniau yn ystod wythnos Cymru Daclus. Mae Grŵp Bysedd Gwyrdd yn arwain gweithgareddau amgylcheddol ac yn monitro goleudau.

Mae'r cynorthwyr wedi derbyn hyfforddiant Gemau Buarth ac ar gais y disgyblion wedi hyfforddi Bydis Buarth. Mae amserlen gweithgareddau bob amser chwarae sy'n cael ei arwain gan oedolion a disgyblion blwyddyn 2 ac mae'r defnydd o amserau egwyl a chinio yn esiampl o arfer da yn sir Gwynedd. Mae'r disgyblion yn rhedeg o amgylch y iard a rhoddir tystysgrifau llwyddiant am rhedeg 5, 10 a 15 munud. Mae nifer o glybiau ar gael ar ôl ysgol yn cynnwys Dreigiau Bach yn nhymor yr haf a Clwb Celf, Clwb Drama a Chlwb Coginio ac yn y blaen ac mae'r disgyblion yn mynychu cyfres o wersi nofio.

Meysydd sydd angen ystyriaeth bellach

- Cynnal eich arfer presennol.

Adborth i ddisgyblion

Annwyl ddisgyblion Ysgol Abercaseg,

Diolch yn fawr am wneud ein hymweliad yn un mor bleserus. Roedd yn wych i gael siawns i siarad gyda chymaint ohonoch ac roedd pawb yn garedig a chwrtais.

Rhaid rhoi diolch arbennig i'r disgyblion Sgwad Syniadau. Roedd yn amlwg trwy sgwrsio gyda chi eich fod yn falch iawn o'ch ysgol ac yn hapus i rannu eich profiadau. Roedd pob un ohonoch yn barod i ateb unrhyw gwestiwn. Cawsom hefyd gyflwyniad ardderchog yn y neuadd a rhaid canmol pob un oedd yn rhan o'r cynhyrchiad. Hoffais yn fawr iawn y ffilm animeiddio i esbonio'r plât bwyta'n iach. Roedd y sgwrs gyda'r Sgwad yn gymorth i mi wrth asesu eich ysgol ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol.

Roedd yn wych i weld pob disgybl yn mwynhau amser chwarae ac mae gwaith y Bydis Buarth, Y Dreigiau Caseg a'r Grŵp Bysedd Gwyrdd yn ardderchog. Roeddwn yn hoffi'r syniad o fonitro goleuadau yr ysgol a rhoi y gerdyn goch am fethu â diffodd y goleuadau. Roedd yr ardd yn dangos tystiolaeth o oriau o waith caled ac mae yn galonogol i weld disgyblion sy'n gefnogol o'r amgylchedd. Mae hi'n amlwg eich bod chi yn gwneud eich hysgol yn le gwych, diogel a hapus.

Yn olaf cawsom y cyfle i rannu cinio gyda chi yn neuadd yr ysgol a roedd pawb yn ymddwyn yn dda a pharchus ac roedd y cinio a'r cwmni yn fendigedig.

Daliwch ati gyda'r gwaith da a phob lwc i'r dyfodol

Yn gywir

Lynn Edwards

